Date · Dyddiad 27 Gorfennaf 2018
Your ref · Eich cyfeirnod
My ref · Fy nghyfeirnod KEH/HJ/MW
Telephone · Ffôn 01437 775861
Email · Ebost Kate.evanhughes@pembrokeshire.gov.uk
www.pembrokeshire.gov.uk
www.sir-benfro.gov.uk

Pembrokeshire County Council
Cyngor Sir Penfro
IAN WESTLEY, M.A. B.Eng.(Hons), C.Eng., M.I.Mech.E., M.C.I.B.S.E.
Chief Executive / Prif Weithredwr

KATE EVAN-HUGHES
Director for Children & Schools
Cyfarwyddwr Dros Blant Ac Ysgolion

Pembrokeshire County Council,
County Hall, HAVERFORDWEST,
Pembrokeshire, SA61 1TP

Cyngor Sir Penfro,
Neuadd y Sir, HWLFFORDD,
Sir Benfro, SA61 1TP

Telephone / Ffôn 01437 764551
DX 98295 HAVERFORDWEST

Please ask for
Os gwelwch yn dda gofynnwch am

At yr holl ymgynghoreion statudol

Annwyl Syr / Madam,

Newid Rheoledig i Ysgol Gynradd Gymunedol Tredeml

Ysgrifennaf atoch i'ch hysbysu bod Cyngor Sir Benfro, fel rhan o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 26ain Gorffennaf 2018, wedi ystyried y cynnig cyhoeddedig canlynol:

'I weithredu newid rheoledig i Ysgol Gynradd Gymunedol Tredeml er mwyn newid ystod oedran y disgyblion y gellir eu derbyn o 4-11 blwydd i 3-11 blwydd er mwyn galluogi derbyn disgyblion meithrin.'

Penderfynodd y Cyngor cymeradwyo'r cynnig fel y'i cyhoeddwyd. Cyn dod i benderfyniad, ystyriodd y Cyngor y sylwadau a dderbyniwyd fel rhan o'r ymgynghoriad statudol ac ymateb y cynigiwr iddynt; ni dderbyniwyd gwrthwynebiad i'r cynnig. Ystyriodd y corff llywodraethu ffactorau amrywiol hefyd wrth benderfynu, sef:

a) Ansawdd a safonau addysg
b) Yr angen am lefydd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion
c) Adnoddau addysg a goblygiadau ariannol eraill
ch) Ffactorau cyffredinol eraill:
- Pa effaith fydd cynigion yn ei gael ar gyrhaeddiad addysgol ymhlith plant o gefndiroedd difreintiedig yn economaidd;
- Unrhyw faterion cydraddoldeb, gan gynnwys y rheiny a ganfyddir trwy asesu'r effaith ar gydraddoldeb;
- Pa un ai a yw'r ysgol dan sylw yn destun diddordebau ymddiriedolaeth neu elusennol;

d) Ffactorau penodol i gynigion i ychwanegu neu ddiddymu dosbarthiadau Meithrin:
- Safon addysg meithrin a digonolrwydd adeiladau a chyfleusterau a gynigir, yn y dosbarth a thu allan, a hyfywedd unrhyw ysgol sy'n dymuno ychwanegu lleoedd meithrin;
- Pa un ai a oes angen lleoedd meithrin ychwanegol yn yr ardal;
- Lefelau'r galw am fathau penodol o addysg meithrin, ee. Cyfrwng Cymraeg neu ddarpariaeth gyda nodwedd grefyddol;

We welcome correspondence in Welsh and English, and will respond within a maximum of 15 working days. We will respond in the language in which the correspondence is received (unless you ask us to do otherwise). / Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg a byddwn yn ymateb cyn pen 15 diwrnod gwaith fan bellaf. Byddwn yn ymateb yn yr un iaith â'r ohebiaeth a dderbyniwyd (oni bai eich bod yn gofyn i ni wneud yn wahanol).

For a copy in large print, easy-read, Braille, audio, or an alternative language, please contact Pembrokeshire County Council on the number above. / Os am gopi mewn print mawr, fformat hawdd ei ddarllen, Braille, sain neu mewn iaith arall, cysylltwch â Chyngor Sir Penfro ar y rhif uchod.

- Effaith y cynnig ar sefydliadau eraill, gan gynnwys darparwyr preifat a thrydydd sector;
- Faint fydd y cynnig yn integreiddio addysg blynyddoedd cynnar gyda gwasanaethau gofal plant neu'n gyson ag agwedd integredig.

dd) Ffactorau a ystyriwyd wrth gymeradwyo/bennu cynigion trefniadaeth ysgol:

- Pa un ai a oedd unrhyw gynigion perthnasol eraill;
- Sicrhau bod yr ymgynghoriad statudol wedi ei gynnal yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (y Cod);
- Sicrhau bod y cynnig wedi ei gyhoeddi yn unol â'r Cod a bod yr hysbysiad yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol;
- Bod ystyriaeth wedi ei roi i ddogfen yr ymgynghoriad ac adroddiad yr ymgynghoriad;
- Bod ystyriaeth wedi ei roi i unrhyw wrthwynebiadau ac adroddiad y gwrthwynebiadau ac unrhyw ymatebion i'r hysbysiad yn cefnogi'r cynigion (os yw'n berthnasol).

Bydd gweithredu'r cynnig yn cyfeirio at faterion allweddol a ganfuwyd yn yr achos am newid, sef:

- I ymestyn ystod oedran isaf ysgolion cynradd pan ofynnir amdano gan gyrff llywodraethu a phryd y mae er budd darparu gwasanaeth effeithiol;
- I alinio ystod oedran Ysgol Gynradd Cymunedol Tredeml a Ysgol Gynradd Cymunedol Tafarnspeit, h.y partneriaid ffederasiwn.

Yr eiddoch yn gywir

Kate Evan-Hughes
Cyfarwyddwr dros Blant ac Ysgolion